Bwyd a Diod Cymru
Clwstwr Diodydd

Food & Drink Wales
Drinks Cluster

Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

# Tyfu'r Diwydiant Diodydd yng Nghymru

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
**Llais y diwydiant yng Nghymru**

Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales Industry Board



Mae diwydiant diodydd Cymru yn eang ac yn gymhleth gydag is-sectorau amrywiol, gan gynnwys cwrw, seidr, gwin, gwirodydd, dŵr potel, diodydd meddal, sudd ffrwythau, diodydd poeth, a diodydd llaeth a di-laeth.



# Rhagair

Mae'r diwydiant diodydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi Cymru, yn sgil trosiant o dros £800m, gwerthiannau manwerthu o dros £950m a chyflogi 1200 o bobl[1]. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd y sector, lansiodd Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, y Clwstwr Datblygu Diodydd ym mis Mawrth 2017, yn BlasCymru/TasteWales.

Er ei fod yn y camau cynnar o hyd, mae'r Clwstwr Diodydd wedi gwneud cynnydd o ran codi proffil sector diodydd Cymru trwy gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau, amlygu blaenoriaethau strategol allweddol i gefnogi twf y diwydiant a dod â chwmnïau diodydd ynghyd i gydweithio i fynd i'r afael â heriau cyffredin.

Yn gynharach eleni, gofynnodd Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i'r clwstwr ddatblygu strategaeth ar gyfer y sector. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o gynnydd y clwstwr diodydd hyd yma ac yn gosod cyfeiriad ar gyfer y sector. Ar ran fy nghydweithwyr ar Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, hoffwn ddiolch i'r cwmnïau diodydd sydd wedi cyfrannu eu hamser a'u harbenigedd at y clwstwr; maen nhw wedi bod mor garedig â rhannu eu barn a'u meddyliau am sut i adeiladu sector diodydd cryfach yng Nghymru.

Andy Richardson
Cadeirydd, Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru

Rhagfyr 2018

[1] Dadansoddiad a Throsolwg o Ddiwydiant Diodydd Cymru, Mawrth 2017

# Cyflwyniad

Mae diwydiant diodydd Cymru yn eang ac yn gymhleth gydag is-sectorau amrywiol, gan gynnwys cwrw, seidr, gwin, gwirodydd, dŵr potel, diodydd meddal, sudd ffrwythau, diodydd poeth, a diodydd llaeth a di-laeth. Mae maint a graddfa'r cwmnïau'n amrywio o ficro-gwmnïau i gwmnïau mawr rhyngwladol; mae gan rai ohonynt gyfleusterau potelu, tra bod rhai eraill yn troi at gwmni allanol i botelu eu diodydd. Mae gwahanol gategorïau o fewn y sector diodydd yn profi cyfraddau twf gwahanol. Er enghraifft, bu twf sylweddol yng ngwerthiant gwirodydd fel jin a rỳm ac mae twf gwerthiant cwrw di-alcohol neu alcohol isel wedi bod yn uwch na rhai eraill yn y categori cwrw ac êl.

Roedd gwaith cynnar y Clwstwr Diodydd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chwmnïau yn y diwydiant er mwyn deall beth sy'n rhwystro eu twf. Mae rhai o'r rhwystrau a amlygwyd yn cynnwys diffyg sgiliau; mynediad i ynni; newid patrymau a thueddiadau yfed; cau tafarndai a sefydliadau masnachu traddodiadol; materion rheoliadol fel y dreth siwgr, lleiafswm pris alcohol; agweddau defnyddwyr tuag at blastig; deunydd pacio; a gormod o gapasiti.




Ffair Win Llundain

# Cyflawniadau'r Clwstwr Diodydd yn ystod 2017 a 2018

Ers comisiynu'r Clwstwr Diodydd yng ngwanwyn 2017, mae llif cyson o weithgareddau a arweinir gan fusnes wedi cael eu cynnal. Hyd yma, bu ymgysylltiad â 68 o fusnesau, a 12 o gyrff academaidd a llywodraethol, sy'n sicrhau bod y clwstwr yn dilyn egwyddorion Helics Triphlyg, sef diwydiant, academia a llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i feithrin datblygiad economaidd.

Gellir disgrifio'r gweithgarwch orau fel Cam 1: cyfnod o ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, recriwtio aelodau'r Clwstwr, a gweithgareddau a ymatebodd i anghenion aelodau'r clwstwr. Roedd y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- Arolwg ar-lein o'r holl gynhyrchwyr diodydd yng Nghymru er mwyn pennu anghenion Clwstwr Diodydd ym mis Mehefin 2017;
- Cynnal cyfarfod agoriadol y Clwstwr Diodydd gyda chynhyrchwyr a phartneriaid Helics Triphlyg eraill ym mis Tachwedd 2017 er mwyn cytuno ar flaenoriaethau; cafwyd camau dilynol ym mis Mai 2018 i barhau â'r ymgysylltu ac adrodd ar y cynnydd a wnaed ers dechrau'r clwstwr;
- Cymerodd 10 o gynhyrchwyr cwrw, seidr a gwirodydd ran ym mhresenoldeb cyntaf Cymru yn Sioe Pitsa a Phasta Ewrop ym mis Tachwedd 2017; mae hyn wedi arwain at dros £250,000 o werthiant yn flynyddol ar draws y cyflenwyr a gymerodd ran;
- Roedd cyfarfodydd llif gwaith gyda chynhyrchwyr a phartneriaid Helics Triphlyg eraill ym mis Ionawr a Chwefror 2018 yn canolbwyntio ar ddatblygu'r blaenoriaethau a amlygwyd yng nghyfarfodydd cyntaf y Clwstwr. Roedd y blaenoriaethau hyn yn cynnwys: Gwerthu a Marchnata (Alcohol), Pobl a Hyfforddiant, Arian a Chyllid Gweithrediadau;
- Darparwyd buddsoddiad yn nata'r farchnad gan y darparwr data arweiniol, CGA. Roedd hyn yn ymateb i'r Llif Gwaith Gwerthu a Marchnata a amlygodd gwerthu mewn bariau ac ati yng Nghymru fel cyfle allweddol ar gyfer aelodau'r Clwstwr. Mae'r data hwn wedi cael ei rannu â chyflenwyr i'w ddefnyddio yn eu cynlluniau datblygu busnes eu hunain.
- Fel rhan o'r llif gwaith Pobl a Hyfforddiant, dechreuodd yr ymgysylltiad â'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod, sydd bellach yn arwain at y ddarpariaeth hyfforddiant technegol gyntaf wedi'i theilwra ar gyfer bragwyr yng Nghymru, ar y cyd â Brewlab (a rhaglen Sgiliau Bwyd Cymru) sydd ar fin dechrau yn gynnar yn 2019.

- Dechreuwyd yr ymgysylltiad â'r sector gwin Cymreig penodol yng Ngwobrau Gwin Cymru ym mis Tachwedd 2017, ac mae wedi arwain at ymgysylltiad dilynol ac eang gyda Chymdeithas Gwinllannau Cymru a'i haelodau, a arweiniodd at Strategaeth ar gyfer Gwin Cymru a'r Welsh Wine Adventure.
- Aeth y Welsh Wine Adventure â phrif gynhyrchwyr gwin Cymru i'r digwyddiadau canlynol ac mae wedi trawsnewid y diddordeb mewn gwin o Gymru:
    - WineGB Press and Trade Tasting 26 Ebrill 2018;
    - Three Wine Men – Let's Get Fizzical Consumer Tasting 17 Mai 2018;
    - Ffair Wanwyn Brenhinol Cymru Mai 2018
    - Ffair Win Llundain – Drinks Britannia – 21 i 23 Mai 2018. Roedd y digwyddiad hwn yn uchafbwynt arbennig yn y Welsh Wine Adventure gyda stondin Cymru'n disgleirio yn y sioe o ganlyniad i'r cyfuniad blasus o winoedd, cawsiau a chigoedd – roedd y defnyddwyr wrth eu bodd!
    - Sioe Haf Frenhinol Cymru Gorffennaf 2018

Canlyniad nodedig arall y Clwstwr Diodydd oedd y newyddion diweddar fod pum aelod arweiniol o'r clwstwr wedi llwyddo i sicrhau cyllid Arloesedd mewn Partneriaeth gwerth £100,000 ym mis Hydref 2018. Nod y prosiect cydweithredol hwn yw gwella cyfleoedd ar gyfer bragwyr yng Nghymru mewn bariau ac ati yng Nghymru yn y tymor hwy, er budd holl aelodau'r clwstwr. Mae'r canlyniad hwn yn dangos sut gall clystyrau ysgogi cydweithio dan arweiniad busnesau.


Mae datblygu strategaeth y sector diodydd yn nodi dechrau'r ail gam ar daith y Clwstwr Diodydd, gyda Grwpiau Diddordeb Arbennig yn dechrau cydweithio erbyn hyn.




Digwyddiad Grwpiau Diddordeb Arbennig

Y weledigaeth ar gyfer diwydiant diodydd Cymru yw:

**“Sector diodydd yng Nghymru sy’n ffynnu ac yn datblygu, sy’n cynnwys cynhyrchwyr arloesol ac egnïol diodydd unigryw o ansawdd uchel.”**



# Y weledigaeth ar gyfer Diwydiant Diodydd Cymru

Datgelodd gwaith ymgysylltu cynnar y clwstwr rai blaenoriaethau sy'n berthnasol i'r holl is-sectorau ac sy'n ymateb i gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau'r diwydiant. Y blaenoriaethau strategol hyn yw:

- Arloesi
- Tyfu
- Marchnata
- Sgiliau

Bydd busnesau o bob un o'r is-sectorau yn dod ynghyd dan ambarél y Clwstwr Diodydd er mwyn ffurfio Grwpiau Diddordeb Arbennig a chydweithio ar draws y blaenoriaethau strategol. Bydd pob Grŵp Diddordeb Arbennig yn datblygu hunaniaeth a strategaeth farchnata sydd wedi'u teilwra ar gyfer safle ac anghenion pob sector. Y Grwpiau Diddordeb Arbennig a gynigir yw:

- Cwrw a seidr
- Gwin a gwirodydd
- Dŵr a diodydd meddal
- Diodydd poeth, cynnyrch llaeth, di-laeth a diodydd newydd arloesol sy'n dod i'r amlwg.

Bydd y Grwpiau Diddordeb Arbennig dan arweiniad busnesau ac yn defnyddio adnoddau ac arbenigedd gan bartneriaid academaidd a rhanddeiliaid fel Arloesi Bwyd Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Prifysgol Caerdydd ac Innovate UK er mwyn pennu cwmpas prosiectau cydweithio i'w helpu i dyfu eu sectorau perthnasol.

Er eu bod dan arweiniad busnesau, bydd y Grwpiau hyn hefyd yn cael eu herio i arloesi a meddwl mewn ffordd wahanol gan holl rannau eraill model helics triphlyg y clwstwr. Bydd arloesi ar lefel newid fformiwleiddiad yn unig yn annigonol wrth sicrhau sector gadarn yn y dyfodol.

**Bydd gweithio gyda'n gilydd ar y blaenoriaethau strategol hyn yn helpu'r agweddau canlynol:**

- Adeiladu brandiau diodydd Cymreig gartref a thramor
- Gwella sgiliau a gwybodaeth ar draws y sector er mwyn cefnogi arloesedd
- Galluogi datblygiad a thwf
- Gwella perfformiad amgylcheddol y diwydiant diodydd

**Er mwyn gwneud cynnydd sylweddol ar y blaenoriaethau strategol ac i sicrhau bod y Clwstwr Diodydd wir yn cael ei arwain gan fusnesau, nodau'r Clwstwr Diodydd yw:**

- 50% o gynhyrchwyr diodydd yng Nghymru ynghlwm â'r clwstwr yn y 3-5 blynedd nesaf
- 30-40 o gynhyrchwyr ag ymgysylltiad uchel yn arwain a/neu'n cydweithio ar flaenoriaethau/prosiectau strategol
- 5-7 o gynhyrchwyr ag ymgysylltiad uchel yn ymgymryd â rolau arweiniol o fewn pob Grŵp Diddordeb Arbennig

Wrth i'r Grwpiau Diddordeb Arbennig ddod ynghyd, byddant yn pennu deilliannau a chamau ar gyfer eu sectorau penodol er mwyn monitro effaith y clwstwr a'r grwpiau.

# Camau Gweithredu Blaenoriaeth Strategol Trawsbynciol

Er y bydd y Grwpiau Diddordeb Arbennig yn amlygu camau er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau strategol eu sectorau penodol, bydd y Clwstwr Diodydd yn rhoi rhai camau trawsbynciol ar waith.

**BLAENORIAETH STRATEGOL**
**Galluogi a chynyddu arloesedd er mwyn cynhyrchu diodydd unigryw o ansawdd uchel**

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb rheolwr y clwstwr | Cyfrifoldeb aelodau'r clwstwr |
|---|---|---|
| Gwneud defnydd gwell o ddata a mewnwelediad y farchnad i ddeall tueddiadau a gofynion y defnyddwyr | Canfod y data ar gyfer y categori perthnasol; helpu cynhyrchwyr i ddeall a dehongli data a mewnwelediadau | Helpu i ddiffinio'r briff ar gyfer data'r categori; ymateb i fewnwelediadau trwy lywio gweithgareddau'r NPD |
| Gwella galluoedd ar gyfer datblygu cynnyrch | Hwyluso ymgysylltiad ag Arloesi Bwyd Cymru;<br>Galluogi mynediad i raglenni cymorth eraill Llywodraeth Cymru fel SMART Cymru | Ymgysylltu ag Arloesi Bwyd Cymru er mwyn cynorthwyo datblygiad ac ailfformiwleiddiad cynnyrch. Cymryd rhan mewn rhaglenni perthnasol fel SMART Cymru |
| Cyflawni safonau ac achrediadau disgwyliedig y diwydiant | Hwyluso ymgysylltiad ag Arloesi Bwyd Cymru | Ymgysylltu ag Arloesi Bwyd Cymru i gyflawni achrediadau perthnasol |
| Cymryd rhan mewn ymchwil a datblygu cydweithredol tymor canolig a thymor hir | Trefnu gweithgareddau ymgysylltu gyda phartneriaid academaidd perthnasol a all gyflwyno gwelliannau tymor hir i'r busnesau a'r sector | Bod yn agored i gydweithio a ffyrdd newydd o weithio |
| Cael mynediad i gyllid er mwyn cefnogi arloesedd | Trefnu gweithgareddau ymgysylltu â darparwyr cyllid, darparu arweiniad ar gredydau treth ymchwil a datblygu, hwyluso cynigion ariannu | Cyflwyno systemau priodol er mwyn caniatáu hawliadau credyd treth ymchwil a datblygu; cymryd rhan mewn cynigion ariannu cydweithredol, neu eu harwain |
| Dysgu gan bobl eraill | Trefnu teithiau astudio perthnasol er mwyn gwella/rhannu gwybodaeth | Cwmpasu gofynion rhannu gwybodaeth; cymryd rhan mewn teithiau astudio rhannu gwybodaeth; rhannu eich gwybodaeth â'ch cydweithwyr yn y sector |

**BLAENORIAETH STRATEGOL**
**Cefnogi twf busnesau diodydd sydd â photensial ar gyfer twf uchel**

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb rheolwr y clwstwr | Cyfrifoldeb aelodau'r clwstwr |
|---|---|---|
| Ffocysu adnoddau ar gwmnïau â photensial ar gyfer twf uchel | Mapio'r sector; amlygu cwmnïau sydd â photensial ar gyfer twf uchel; datblygu cymorth wedi'i deilwra er mwyn galluogi busnesau i dyfu | Amlygu rhwystrau twf; bod yn barod i fuddsoddi amser ac adnoddau i oresgyn y rhwystrau twf |
| Gwella cynaliadwyedd | Hwyluso ymgysylltiad â sefydliadau fel WRAP; bod yn wyliadwrus o ran disgwyliadau cyfnewidiol defnyddwyr a rheoliadau; darparu diweddariadau amserol a perthnasol ar faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd. Herio cwmnïau i ystyried dulliau newydd, chwyldroadol i wneud cynaliadwyedd yn rhan allweddol o'u strategaeth. | Amlygu ffyrdd o wella cynaliadwyedd; cymryd rhan mewn rhaglenni i wella cynaliadwyedd; cyflwyno prosesau i wella cynaliadwyedd |
| Adeiladu cadwyni cyflenwi cadarn a chydweithredol | Annog ymagwedd holistaidd at y gadwyn gyflenwi er mwyn gwella cynhyrchiant ac amlygu prosiectau cydweithredol yn y gadwyn gyflenwi. e.e. gweithio gyda'r Prosiect Twf ar y Cyd (Ysgol Fusnes Caerdydd) | Bod yn agored i gydweithio er mwyn gwella cadwyni cyflenwi, ac er mwyn ennill mantais fasnachol gynaliadwy. |



| BLAENORIAETH STRATEGOL<br>Adeiladu brandiau diodydd o Gymru gartref a thramor | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Cyfrifoldeb rheolwr y clwstwr** | **Cyfrifoldeb aelodau'r clwstwr** |
| Cael mynediad i ddata a mewnwelediadau'r farchnad i ddeall tueddiadau a gofynion defnyddwyr | Canfod data perthnasol am y farchnad; helpu cynhyrchwyr i ddehongli a deall y data a'r mewnwelediadau | Helpu i ddiffinio'r briff ar gyfer data'r categori; sicrhau bod y cynigion yn ymateb i dueddiadau a gofynion y defnyddwyr |
| Datblygu cynlluniau marchnata er mwyn hyrwyddo'r sector a datblygu hunaniaeth y sector | Hwyluso gweithgarwch cynllunio marchnata; hwyluso/ariannu trefnu gweithgareddau marchnata perthnasol | Helpu i lywio'r cynllun marchnata; buddsoddi amser ac adnoddau i ddarparu gweithgareddau; bod yn llysgennad ar gyfer y sector |
| Cynllun cysylltiadau cyhoeddus i hyrwyddo'r is-sectorau i'r maes ac i ddefnyddwyr | Hwyluso gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus, canfod newyddion a straeon diddorol; ariannu gweithgareddau cysylltiadau cyhoeddus | Helpu i lywio'r cynllun cysylltiadau cyhoeddus; cyfrannu at adrodd y stori; cynnal ymweliadau gyda'r wasg/blogwyr |
| Hyrwyddo defnyddio diodydd o Gymru mewn atyniadau twristaidd a lleoliadau lletygarwch | Cydweithio'n agos gyda Croeso Cymru i hyrwyddo diodydd o Gymru; amlygu ffyrdd o gynyddu presenoldeb diodydd o Gymru mewn lleoliadau twristaidd/lletygarwch | Cymryd rhan mewn digwyddiadau cyflenwyr; cyfrannu at ddatblygu llwybrau i dwristiaid |
| Hyrwyddo diodydd o Gymru yn y DU a thramor | Rhoi cyfleoedd i gymryd rhan mewn sioeau masnach a theithiau yn y DU a thramor | Cymryd rhan mewn sioeau masnach a theithiau yn y DU a thramor; amlygu sioeau masnach amgen; cydweithio er mwyn sicrhau presenoldeb sy'n gwneud effaith |



| BLAENORIAETH STRATEGOL<br>Gwella sgiliau a gwybodaeth ar draws y diwydiant er mwyn gwella arloesedd ac ansawdd | | |
|---|---|---|
| **Cam Gweithredu** | **Cyfrifoldeb rheolwr y clwstwr** | **Cyfrifoldeb aelodau'r clwstwr** |
| Amlygu heriau/diffygion sgiliau a datblygu cynlluniau sgiliau er mwyn ymateb i heriau presennol | Hwyluso trafodaethau am sgiliau; ymgysylltu â darparwyr hyfforddiant er mwyn amlygu atebion posibl; gweithio gyda'r Academi Sgiliau Cenedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod er mwyn canfod atebion hyfforddiant | Cyfrannu at drafodaethau am sgiliau, helpu i lywio gofynion sgiliau, cymryd rhan mewn cynlluniau peilot, darparu adborth ar gynlluniau peilot, cymryd rhan mewn hyfforddiant |
| Amlygu ffynonellau posibl i ariannu'r sector, trosglwyddo/ennill gwybodaeth, gofynion sgiliau a hyfforddiant | Ymgysylltu â Sgiliau Bwyd Cymru, Prosiect Helix a phartneriaid academaidd eraill er mwyn sicrhau cyllid | Yn ôl yr angen, cyfrannu arian i ddatblygu a darparu hyfforddiant perthnasol wedi'i deilwra yn y sector/diwydiant |
| Ystyried anghenion tebygol yn y dyfodol yn ymwneud yn benodol â thechnolegau a deunyddiau newydd a'r awydd gyffredinol i wella ansawdd a chysondeb yn y sector | Herio'r sector gyda syniadau a dulliau newydd yn y DU ac ar draws y byd<br>Sicrhau bod yr achrediadau a argymhellir yn briodol a bod cyfleoedd i ennill achrediad ar agor i bawb | Bod yn barod i ystyried syniadau a dulliau newydd. Canolbwyntio ar "ansawdd" a cheisio cyflawni achrediadau yn ôl yr angen i gyrraedd marchnadoedd newydd. |

Mae'r diwydiant diodydd dan bwysau i fod yn broffidiol, yn enwedig mewn sectorau lle mae'r cynnyrch yn cael ei ddefnyddio'n llai aml. Mae'r dirywiad hwn yn cael ei ysgogi gan newidiadau mewn arferion yfed sy'n ymwneud â chenhedlaeth a phryderon iechyd yn ymwneud â gordewdra ac alcohol. Nid yw'r pwysau hwn yn debygol o newid, a gallai gynyddu hyd yn oed, wrth i strategaethau iechyd cyhoeddi gael eu datblygu sydd wedi'u dylunio i ostwng y baich yn ymwneud ag alcohol ar y gymdeithas.

Felly, dros amser, mae'n hanfodol bod y strategaeth hon yn cynnwys ffyrdd i gwmnïau diodydd fod yn fwy cynhyrchiol a chymryd rhan mewn gwaith ymchwil a datblygu tymor hir er mwyn creu cynhyrchion newydd yn y sector ehangach, yn ogystal â thactegau masnachol i wella sefyllfa'r farchnad ac annog meddylfryd "allforio".

Un enghraifft benodol o'r diwydiant yn ceisio cyflawni'r ddau amcan hwn yw gwneud y sector diodydd cyfan yng Nghymru yn fwy gwyrdd. Yn dactegol, os bydd cynaliadwyedd yn dod yn neges allweddol ar gyfer yr holl gynhyrchwyr, trwy edrych yn agos ar holl agweddau economi gylchol, gall y diwydiant wella cynhyrchiant ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, trwy gydweithio. Byddai hyn yn arwain at effaith fuddiol ar broffidioldeb ar draws y sector, gan newid y sgwrs ynghylch marchnata oddi wrth niweidio iechyd a thuag at niwed amgylcheddol ar gyfer busnesau cynaliadwy yn y sector hwn.


Cymdeithas Winllanfa Gymreig
Welsh Vineyard Association
Cymru
Wales
Gwin Pefriog
Llaethliw
Sparkling wine
£26
Gwyn-Rhosliw
White + Rose

# Cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae'r Clwstwr Diodydd yn ystyried nodau sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae gwaith y Clwstwr Diodydd a'r Grwpiau Diddordeb Arbennig yn cefnogi saith nod y Ddeddf.

| Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Cyfraniad y Clwstwr Diodydd/Diwydiant |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Creu a diogelu swyddi mewn cymunedau gwledig (mae llawer o gynhyrchwyr diodydd wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig) |
| Cymru gydnerth | Ffocws ar wella cynaliadwyedd (defnyddio adnoddau, deunydd pacio, dulliau cynhyrchu cynaliadwyedd e.e. dal CO2) |
| Cymru iachach | Ymchwil a datblygu ac arloesi er mwyn creu diodydd iachach e.e. dim siwgr/siwgr isel, alcohol isel, diodydd wedi'u creu o blanhigion |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cadwyni cyflenwi er mwyn cadw'r budd economaidd yn lleol. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cefnogi dosbarthiad lleol e.e. siopau a thafarndai lleol yn rhan allweddol o gymunedau lleol cydlynus |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cefnogi brandiau sy'n dathlu diwylliant ac iaith Cymru |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Ymchwil a datblygu cydweithredol sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a'r economi gylchol |

# Camau nesaf

Mae'r strategaeth hon a datblygiad y Clwstwr Diodydd wedi bod yn seiliedig ar gyfraniadau gan gwmnïau o fewn y diwydiant. Wrth i'r Clwstwr Diodydd esblygu'n Grwpiau Diddordeb Arbennig, mae'r strategaeth yn cael ei rhannu a chamau'n cael eu hamlygu a fydd yn helpu'r diwydiant i symud ymlaen.

**Os hoffech fod yn rhan o'r Clwstwr Diodydd a helpu i lywio dyfodol diodydd Cymru, anfonwch neges e-bost at bwyd-food@levercliff.co.uk**